



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



## Rheoli ceirw gwylt yng Nghymru

Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

**CYNNWYS**

|   |           |
|---|-----------|
| <b>Rhagair y Gweinidog</b>  | <b>4</b>  |
| <b>1: CYFLWYNIAD</b>  | <b>5</b>  |
| 1.1 Beth mae "rheoli ceirw" yn ei olygu?  | 6         |
| 1.2 Dyfodol ceirw gwyllt yng Nghymru – ein gweledigaeth   | 6         |
| 1.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth  | 7         |
| 1.4 Egwyddorion arweiniol – ein dull o reoli ceirw gwyllt   | 8         |
| 1.5 Y ffactorau sy'n dylanwadu ar bolisi – yr angen i weithredu   | 9         |
| 1.5.1 Ceirw a'u heffaith yng Nghymru  | 9         |
| 1.5.2 Ymrwymadau rhyngwladol  | 10        |
| 1.5.3 Polisiâu a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru   | 11        |
| 1.5.4 Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed                               | 12        |
| 1.5.5 Crynodeb – yr angen i weithredu   | 13        |
| <b>2: Agenda ar gyfer gweithredu</b>  | <b>14</b> |
| 2.1 Codi ymwybyddiaeth am geirw a'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y maent yn eu cael                                     | 14        |
| 2.2 Rheoli effeithiau ceirw   | 15        |
| 2.3 Lleihau effeithiau rhywogaethau ceirw estron lle bo hynny'n bosibl  | 15        |
| 2.4 Sicrhau y caiff ceirw eu rheoli mewn modd cyfrifol, cymwys a moesegol   | 16        |
| 2.5 Sicrhau bod cig carw o ganlyniad i reoli ceirw gwyllt ar gael yn fwy helaeth i farchnadoedd lleol                       | 16        |
| 2.6 Lleihau nifer a difrifoldeb y gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau yng Nghymru  | 17        |
| 2.7 Monitro iechyd anifeiliaid a materion ynghylch defnyddau ceirw gwyllt, a mynd i'r afael â hwy lle bo'n briodol          | 17        |
| 2.8 Lleihau nifer y gweithgareddau anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â cheirw gwyllt yng Nghymru                             | 17        |
| <b>3: Cyflwyno</b>  | <b>18</b> |
| <b>4: Monitro</b>   | <b>18</b> |
| Atodiad 1: Ceirw gwyllt yng Nghymru   | 19        |
| Atodiad 2: Heriau allweddol wrth reoli ceirw a nodwyd yn y papur materion, Rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru, mis Ebrill 2010 | 22        |
| Atodiad 3: Partneriaeth Menter Ceirw Cymru  | 22        |
| Geirfa  | 23        |

ISBN: 978 0 7504 5952 5

Mae pob delwedd yn © Hawlfraint y Goron  
o Lyfrgell Llundain Comisiwn Coedwigaeth Cymru oni nodir yn wahanol.  
Wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu gan FBA DESIGN [www.fbagroup.co.uk](http://www.fbagroup.co.uk)  
Llun y clawr: Mark Malins

## Rhagair y Gweinidog



Roedd ceirw yn breswylwyr cynnar yng Nghymru ar roedd eu gwerth fel rhywogaeth ysglyfaethu yn cael ei gydnabod yn hanesyddol mewn fforestydd hela a hefyd yn ffynhonnell a reolwyd o gig carw mewn nifer o barciau ceirw yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cefn gwlad Cymru, lle mae ceirw bellach yn bodoli, wedi cael ei ffurfio'n fawr gan weithgarwch dynol. Mae datblygiadau amaethyddol wedi trawsfurfio'r dirwedd ac mewn hanes mwy diweddar, roedd ceirw yn anhysbys mewn nifer o rannau o Gymru. Mae tueddiadau mwy diweddar o ran ehangu coetiroedd a rheoli cynefinoedd eraill wedi creu amgylchedd sydd wedi annog lledaeniad daearyddol ehangach o geirw lle mae poblogaethau gyda llai o ysglyfaethwyr naturiol wedi gallu ehangu. Ar adegau, gall hyn arwain at effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a reolir a'r amgylchedd naturiol.

Bydd nifer o amcanion ein strategaeth *Coetiroedd i Gymru* yn anoddach i'w cyflwyno oni bai yr eir i'r afael yn gywir ag effeithiau negyddol ceirw. Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer nifer o'n amcanion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol. Dyma'r rhesymau pam gofynais am ddatblygu strategaeth ceirw gwyllt a fyddai'n creu fframwaith ar gyfer eu rheoli'n gynaliadwy a datblygu gweithrediadau i gyflawni'n gweledigaeth: **"Mae Cymru'n elwa o'i phoblogaeth o geirw gwyllt mewn cydbwysedd â'r amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd."**

Mae'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn pwysleisio pwysigrwydd cydlynu rheoli ceirw rhwng perchnogion tir, cyrff cyhoeddus a sefydliadau anllywodraethol ar lefel y dirwedd. Trwy'r dull hwn, a'r amrywiaeth o weithrediadau eraill a nodir yn y strategaeth hon, ein nod yw cynnal gwerth ceirw gwyllt fel rhan o'n treftadaeth naturiol, a sicrhau, lle bo angen eu rheoli'n weithredol, ei fod yn gynaliadwy yn ogystal â diogel, dyngar ac effeithiol.

**Elin Jones**  
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig**

Chwefror 2011

## 1: Cyflwyniad

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae cynnydd wedi bod yn nifer y ceirw a'u dosbarthiad yng Nghymru. Er bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o geirw gwyllt yng Nghymru yn parhau i fod yn weddol isel, maent yn rhan werthfawr o'n treftadaeth naturiol. Gall ceirw gwyllt gyflawni rolau ecolegol pwysig, yn ogystal â chynnig ystod o fanteision eraill megis cyfle i bobl wyllo natur yn eu hamser hamdden, ac fel ffynhonnell gynaliadwy o gig carw. Pan ddaw ceirw yn drech na phopeth arall mewn ecosystem, mae'r pwysau ar elfennau eraill y system honno, y rhywogaethau a'r cynefinoedd eraill, yn ormod ac maent yn dioddef. Mae pobl wedi dylanwadu'n drwm ar dirwedd Cymru, ac mae'r dirwedd honno ynghyd â'r ffaith nad oes gan geirw ysglyfaethwyr naturiol, yn creu cynefin lle gall ceirw ffynnu. Er nad yw ceirw gwyllt mor niferus a chyffredin yng Nghymru eto ag y maent mewn rhannau eraill o'r DU, mae eu heffeithiau sylweddol ar amaethyddiaeth, coedwigaeth a chynefinoedd dan fygythiad yn dod yn fwy amlwg, yn yr un modd ag y mae gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau ar y ffyrdd, a'r rôl y gallai ceirw ei chwarae yn epidemioleg rhai clefydau penodol. Mae'n debygol y bydd ceirw'n ymsefydlu fwy mewn ardaloedd trefol ac amdrefol<sup>1</sup>, a allai arwain at fwy o bryderon ynghylch lles ceirw a mwy o effaith ar erddi a manau gwyrdd cyhoeddus.

Am yr holl resymau hyn, penderfynom ddatblygu'r strategaeth hon, ac ym mis Ebrill 2010, gwnaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru gylchlythru 'papur materion' a oedd yn crynhoi gwybodaeth bresennol am geirw gwyllt yng Nghymru a'r materion allweddol ar gyfer eu rheoli. Gellir dod o hyd i'r papur materion a chrynodeb o sylwadau ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru:

<http://fcnotes/website/forestry.nsf/byunique/INFD-8CZED6>. Ym mis Medi 2010, anfonwyd fersiwn ddrafft o Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ceirw Cymru at randdeiliaid. Mae'r ddogfen hon, **Rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru: strategaeth, a'r Cynllun Gweithredu 2011-2015** cysylltiedig (sy'n cael ei orffen ar hyn o bryd) yn seiliedig ar drafodaethau gyda rhanddeiliaid a'u hymatebion.

Mae **Atodiad 1** yn rhoi cyflwyniad i geirw gwyllt yng Nghymru, ac mae **Atodiad 2** yn rhoi crynodeb o'r prif heriau o ran rheoli ceirw a nodwyd yn ein papur materion ym mis Ebrill 2010. Wrth i boblogaethau o geirw gwyllt gynyddu ac wrth iddynt gael eu dosbarthu dros ardal fwy eang, mae'n debygol y bydd problemau sydd wedi bod yn effeithio ar rannau eraill o'r DU yn dod yn fwy cyffredin yng Nghymru. O weithredu yn awr, dylai hynny helpu i sicrhau y caiff ceirw eu rheoli yn gynaliadwy, ac y caiff y problemau sylweddol a brofwyd mewn rhannau eraill o'r DU eu hosgoi.

Wrth i'r problemau hyn ddod yn fwy amlwg, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid wedi cynyddu eu hymateb yn raddol. Am ddau ddegawd a mwy, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi chwarae rôl allweddol wrth fonitro a rheoli poblogaethau ceirw gwyllt. Er 1999, bu'r Bartneriaeth Menter Ceirw (**gweler Atodiad 3**) yn gweithio gyda thirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth, darparu cyngor technegol, cynorthwyo wrth sefydlu mentrau cydweithredol i reoli ceirw, cynnal ymchwil a chynorthwyo â hyfforddiant a safonau. Mae cryn dipyn wedi'i gyflawni gydag adnoddau prin, diolch yn bennaf i gymorth mewn da gan randdeiliaid. Mae'r canlyniadau a gafwyd hyd yn hyn yn cynnwys dealltwriaeth well o'r heriau a'r risgiau a gyflwynir gan y cynnydd mewn ceirw gwyllt; gwell ymwybyddiaeth ymysg rhanddeiliaid o'r problemau a'r atebion, ac mewn rhai ardaloedd gwelwyd cynnydd mewn gwaith rheoli cydweithredol, gan gynnwys defnyddio Grwpiau Rheoli Ceirw.

<sup>1</sup>Mae "amdrefol" yn golygu ardaloedd trawsnewidiol o amgylch aneddiadau a gaiff eu nodweddau gan gymysgedd o wahanol fathau o ddefnydd tir, sy'n aml yn cynnwys tai, trafniadaeth, diwydiant, amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd "naturiol". Er enghraifft, gweler Dandy et al (2009) The management of roe deer in peri-urban Scotland. Forest Research.



### 1.1 Beth mae “rheoli ceirw” yn ei olygu?

Nid yw ceirw yn parchu ffiniau perchen tir, ac mae angen ystyried y rhywogaethau heidiol yn enwedig (ceirw coch, ceirw sica a danasod) a’u rheoli ar lefel y dirwedd weithiau. Yn aml, bydd hynny’n golygu cydweithio rhwng sawl tîrffeddiannwr. Fel arfer, y cam cyntaf fyddai pwysu a mesur yr angen i reoli ceirw yn yr ardal, a byddai hynny’n cynnwys cynnal asesiad o’r niwed go iawn neu’r niwed tebygol, ac asesu nifer y ceirw yn yr ardal.

Cynlluniau Rheoli Ceirw yw’r prif adnodd wrth bennu amcanion a chamau gweithredu ynghylch rheoli. Mae’r ystod o gamau gweithredu yn cynnwys:

- Asesu’r boblogaeth a monitro effaith
- Rheoli’r boblogaeth yn uniongyrchol: rheoli niferoedd
- Addasu: cynllunio fforestydd a choetiroedd yn wahanol, a newid y technegau a ddefnyddir i sefydlu coed
- Amddiffyn: codi rhwystrau corfforol megis ffensys a defnyddio atalwyr cemegol neu ddyfeisiau codi ofn

Mae’r diwydiant wedi datblygu set gynhwysfawr o Ganllawiau Arfer Gorau (sydd ar gael ar wefan y Bartneriaeth Menter Ceirw, sef [www.thedeerinitiative.co.uk](http://www.thedeerinitiative.co.uk)). Diben y canllawiau yw sicrhau safonau uchel o ran diogelwch, lles ceirw a hylendid bwyd.

Mae ymchwil yn cael ei gwneud i ddulliau imiwnolegol o atal cenhedlu ymhlith ceirw fel modd o reoli niferoedd, ond hyd yn hyn nid oes dulliau effeithiol wedi’u datblygu ar gyfer ceirw gwyllt yn y wlad hon.

### 1.2 Dyfodol ceirw gwyllt yng Nghymru - ein gweledigaeth

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o’r farn y dylem gynnal gwerth ceirw gwyllt fel rhan o’n treftadaeth naturiol, a sicrhau, os oes angen eu rheoli, bod hynny’n digwydd mewn modd cynaliadwy yn ogystal ag mewn modd diogel, di-boen ac effeithiol. Fel rhan o’r gwaith o adeiladu cymdeithas gynaliadwy, dylem sicrhau y caiff ceirw gwyllt eu rheoli mewn modd cyfrifol a moesegol, gan leihau’r effaith ar goetiroedd, amaethyddiaeth a chynefinoedd a warchodir. Mewn achosion lle bydd yn rhaid difa ceirw, dylid cydnabod y ceir rhai cyfleoedd i farchnata cig carw gwyllt<sup>2</sup>. Nid oes neb yn berchen ar geirw gwyllt<sup>2</sup>, ac felly mae angen i ni i gyd gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Tîrffeddiannwyr a rheolwyr tir sydd bennaf gyfrifol am reoli ceirw.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Dylid rheoli ceirw gwyllt mewn modd cynaliadwy os ydynt yn bygwth y cydbwysedd hwn, yn enwedig lle mae effeithiau ar themâu strategol allweddol ein strategaeth *Coetiroedd i Gymru*<sup>3</sup>, neu ar ein hymrwymadau ym maes amaethyddiaeth a datblygu gwledig.

Ein gweledigaeth yw bod:

**“Cymru’n elwa o’i phoblogaeth o geirw gwyllt mewn cydbwysedd â’r amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd”**

Byddwn yn defnyddio *Coetiroedd i Gymru* fel fframwaith y weledigaeth hon. Bydd rheoli ceirw yn gynaliadwy ar lefel y dirwedd yn cyfrannu at gyflwyno canlyniadau allweddol y strategaeth. Wedi’u ffurfio o gwmpas thema sylfaenol Coetiroedd a Choed Cymru (sydd â nifer o ganlyniadau penodol) mae mwy o ganlyniadau yn cael eu cyflwyno o dan pob un o’r bedair thema strategol:

- Ymateb i newid yn yr hinsawdd
- Coetiroedd i bobl
- Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig
- Ansawdd yr amgylchedd

Gweler 1.5.4 ar gyfer rhestr lawn o ganlyniadau *Coetiroedd i Gymru*

Bydd manteision eang yn perthyn i’r dulliau rheoli ceirw a gaiff eu hybu dan *Coetiroedd i Gymru* a pholisiau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cydnabod gwerth ceirw i dreftadaeth a thirwedd, ond nid ar draul ecosystemau iach a gwydn neu’r economi wledig. Mae angen ffocws cryf ar reoli’r effeithiau negyddol sylweddol y mae ceirw’n eu cael pan maent yn dod yn arwyddocaol. Yn ogystal, bydd angen i ni gymryd camau i reoli’r modd y mae rhywogaethau ceirw estron yn ymledu. Bydd gwaith rheoli ceirw yn cael ei annog os asesir bod poblogaethau’n cael effaith sylweddol ar werth neu fanteision diwylliannol coetiroedd ac amaethyddiaeth, neu ar yr amgylchedd ehangach a diogelwch pobl Cymru.

### 1.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Fel rhan o’n hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau y byddwn yn trin ein rhanddeiliaid, ein staff a phawb sy’n defnyddio ein coetiroedd yn deg, a’n bod yn eu trin ag urddas a pharch, waeth beth fo’u hil, eu hanabledd, eu rhyw, eu hoed, eu cyfeiriadedd rhywiol a’u crefydd a’u cred. Nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y bydd amcanion y strategaeth hon yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o’r grwpiau hyn o bobl. Fodd bynnag, byddwn yn annog y sawl sy’n ymwneud â gwaith rheoli ceirw yng Nghymru i ystyried a oes unrhyw effeithiau negyddol posibl yn codi o’r camau gweithredu y maent yn eu cymryd i gyflawni’r amcanion, ac yn eu hannog i gymryd camau priodol i sicrhau y caiff yr effeithiau negyddol hyn eu dileu neu eu lleihau gymaint ag sy’n bosibl.



<sup>2</sup> Dan gyfraith y DU, mae ceirw gwyllt yn res nullius. Nid oes neb yn berchen ar geirw gwyllt, ond fel arfer perchennog y tir sy’n cadw’r hawl i’w saethu, ac fel rheol bydd unrhyw geirw sydd wedi marw yn eiddo i berchennog y tir.

<sup>3</sup> Gweler y wefan: <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/forestry/woodlandsforwales/?lang=en>

## 1.4 Egwyddorion arweiniol - ein dull o reoli ceirw gwyllt

### Rhoi gwerth ar geirw gwyllt

Dylai gwaith rheoli ceirw gwyllt adlewyrchu'r gwerth yr ydym yn ei roi ar geirw. Mae llawer o bobl yn rhoi gwerth ar geirw oherwydd eu bod yn rhan o'n treftadaeth naturiol, ac mae eraill yn rhoi gwerth ar geirw oherwydd bod modd eu hela fel gweithgaredd hamdden a chael cig ohonynt. Gall rhywogaethau brodorol yn enwedig gyflawni gwaith ecolegol pwysig a gwneud cyfraniadau cadarnhaol i fioamrywiaeth. Ar yr un pryd, mae angen cydbwysu'r gwerthoedd cadarnhaol hyn a'r effeithiau negyddol sylweddol y gall ceirw eu cael ar amaethyddiaeth, coedwigaeth a'r amgylchedd ehangach.

### Y bartneriaeth rhwng rhanddeiliaid a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Tirfeddianwyr a rheolwyr tir sydd bennaf gyfrifol am reoli ceirw, p'un a dynt yn berchnogion tir neu'n denantiaid. Gan y bydd ceirw gwyllt yn croesi ffiniau a wnaed gan ddyn yn rheolaidd, mae cydweithredu ar lefel y dirwedd yn hollbwysig.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl allweddol i'w chwarae wrth gynorthwyo tirfeddianwyr, rheolwyr tir a phobl eraill gyda fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer rheoli ceirw gwyllt mewn modd cynaliadwy. Mae hynny'n cynnwys:

- Llunio polisi a rheoliadau
- Cynnig cyngor a chymorth technegol
- Cynorthwyo gwaith ymchwil a dylanwadu arno
- Cadw golwg ar glefydau a'u rheoli
- Cynorthwyo wrth godi ymwybyddiaeth a darparu addysg a hyfforddiant
- Darparu cymorth grant
- Prosesu a marchnata cig carw a sicrhau safonau bwyd
- Dangos esiampl a chynorthwyo gweithrediadau rheoli lleol trwy reoli ceirw ar Ystâd Coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad a thir cyhoeddus arall

Rydym wedi ymrwmo o hyd i weithio mewn partneriaeth wrth gydlynu, cyflenwi ac adolygu'r fframwaith hwn ar gyfer rheoli ceirw gwyllt. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni hynny yw trwy gael ystod eang o rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd.



© Mark Malins

### Rheolaeth gynaliadwy

Rydym yn ymrwmo i sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'r dull gweithredu hwn yn berthnasol hefyd i reoli bywyd gwyllt ac adnoddau naturiol - gan gynnwys rheoli ceirw. Mae angen rheoli ceirw gwyllt, ar lefel y dirwedd er mwyn adlewyrchu dynameg eu poblogaeth, ond mewn cydbwysedd ac amgylcheddau graddfa lai ac yng nghyd-destun strategaethau tymor hir megis y bwriad i ehangu coetiroedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd. Felly fydd y defnydd o llech-helwyr lleol yn gymorth i gryfhau gwybodaeth gymunedol, darparu cynaliadwyedd cymdeithasol ac i leihau ôl-troed carbon gwaith rheoli ceirw.

### Gwarchod lles ceirw

Mae rhanddeiliaid wedi pwysleisio'r angen i sicrhau safonau uchel o ran lles ceirw gwyllt; yn enwedig trwy ddefnyddio pobl gymwys sydd wedi'u hyfforddi i wneud gwaith rheoli ceirw, a defnyddio'r arfer gorau. Mae Canllawiau Arfer Gorau (gweler gwefan y Bartneriaeth Menter Ceirw [www.thedeerinitiative.co.uk](http://www.thedeerinitiative.co.uk)) wedi'u datblygu gan y diwydiant i helpu i sicrhau bod helwyr a rheolwyr ceirw gwybodus yn gallu gweithredu yn ôl y safonau gorau posibl o ran diogelwch, hylendid bwyd a lles ceirw. Caiff lles ceirw ei fygwth hefyd gan wrthdrawiadau rhyngddynt a cherbydau a all achosi perygl i ddiogelwch y cyhoedd. Mae hefyd yn cael ei fygwth gan weithgareddau anghyfreithlon fel potsian, ac mewn achosion lle mae poblogaethau ceirw yn fwy dwys ceirw risg gynyddol o effeithiau andwyol ar iechyd ceirw.

### Polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae rheoli ceirw mewn modd cynaliadwy yn dibynnu ar dystiolaeth wyddonol gadarn, ac mae'n bwysig parhau i ddatblygu a herio'r sylfaen dystiolaeth fel y gellir gwella gwaith rheoli ceirw a chyflawni'i amcanion. I'r perwyl hwn, bydd y Bartneriaeth Menter Ceirw yn adolygu datblygiadau mewn ymchwil wyddonol yn rheolaidd, a'r modd y caiff y datblygiadau hynny eu rhoi ar waith wrth fynd ati'n ymarferol i reoli ceirw mewn modd sy'n canolbwyntio ar les.

### Adeiladu ar ddulliau sy'n bodoli eisoes

Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn wedi'u datblygu ar sail y gwaith a wnaed hyd yn hyn gan ein hasiantaethau, ein partneriaid a rhanddeiliaid eraill sydd wedi cadarnhau llawer o'r prif ffactorau sy'n haeddu mwy o sylw (**caiff y rhain eu rhestru yn Atodiad 2**).

## 1.5 Y ffactorau sy'n dylanwadu ar bolisi - yr angen i weithredu

### 1.5.1 Ceirw a'u heffaith yng Nghymru

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn dal i ystyried ceirw gwyllt yn bethau prin, ond mae eu niferoedd ar gynydd ac erbyn hyn, mae ceirw yn fwy cyffredin ac yn fwy eang eu dosbarthiad yng Nghymru nag y buont ar unrhyw adeg yn ein hanes diweddar.

Mae ceirw yn llysysyddion, a phan fydd eu dwysedd yn uchel, gallant gael effeithiau negyddol sylweddol ar goedwigaeth a choetiroedd, cynefinoedd â blaenoriaeth a safleoedd a warchodir. Mae effeithiau sylweddol ar amaethyddiaeth wedi'u cofnodi yn lleol hefyd. Felly, os na chaiff ceirw eu rheoli'n briodol gallent effeithio ar y gwaith o gyflawni canlyniadau strategaeth *Coetiroedd i Gymru*, yn ogystal â thanseilio ymrwymadau ym maes amaethyddiaeth a datblygu gwledig, a pheryglu ein gallu i gyflawni ein hamcanion o ran bioamrywiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r ymdrechion i liniaru'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys cynnydd arfaethedig yn y tir sydd wedi'i orchuddio â choed, cynhyrchu biodanwydd a sicrhau gwell cysylltedd o ran cynefinoedd yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd yr holl ddatblygiadau hyn yn darparu cynefinoedd ffafriol i geirw, a dylid ystyried hynny wrth fynd ati i ddechrau cynllunio prosiect.

Mae'n debygol y bydd ceirw yn ymsefydlu mwyfwy mewn ardaloedd trefol ac amdrefol ac er y gallai mwy o bobl weld ceirw gwyllt yn y dyfodol, bydd cynnydd yn y risg o wrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau (DVCs) yn amlygu'r pryderon ynglŷn â lles ceirw a diogelwch y cyhoedd. Yn ogystal fe fydd y cynnydd mewn ceirw trefol yn cael effeithiau negyddol ar erddi a manau gwyrdd. Fydd fwy o geirw yng nghefn gwlad yn cynyddu'r perygl o wrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â pheri fwy o berygl o afiechydon gall cael effaith ar ddynion neu dda byw, gan roi fwy o bwyslais ar oruchwyliaeth afiechydon. Felly fe fydd rheoli niferoedd ceirw yn parhau i fod yn nod bwysig.

## 1.5.2 Ymrwymiadau rhyngwladol

### Bioamrywiaeth

Mae'n bosibl y bydd ein hymrwymiadau rhyngwladol i amddiffyn a gwarchod bioamrywiaeth yn cael eu peryglu gan boblogaethau o geirw sydd allan o gydbwysedd â'u hamgylchedd. Yn bennaf, mae hynny'n ymwneud â'u heffaith ar fflora a ffawna eraill, yn enwedig mewn ecosystemau coetiroedd.

Mae Confensiwn rhyngwladol ar Amrywiaeth Biolegol 1992 yn cyfeirio'n benodol at gyfoeth bioamrywiaeth mewn fforestydd a'r cysylltiadau rhwng hynny a ffactorau economaidd-gymdeithasol a'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth yn cynnwys:

- Cyfarwyddeb y Cyngor (79/409/EEC), ar Warchod Adar Gwyllt, y caiff ei gofynion gofynion eu bodloni gan ddeddfwriaeth y DU, megis Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Cyfarwyddeb y Cyngor (92/439/EEC) ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt, a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau C adwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994, a ddiwygiwyd ac a atgyfnerthwyd yn ddiweddar yn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

Mae Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth, a gyhoeddwyd yn 1994, yn egluro ymateb y DU i'w rhwymedigaethau dan Erthygl 6A y CBD. Nod Cynllun Gweithredu'r DU yw gwarchod a gwella cyflwr cynefinoedd a rhywogaethau.

### Y newid yn yr hinsawdd

Trwy'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (2008), cyflwynodd y DU y fframwaith tymor hir cyntaf yn y byd sy'n gyfreithiol rwyddol ac sy'n mynd i'r afael â pheryglon y newid yn yr hinsawdd. Mae gan y ddeddfwriaeth oblygiadau sylweddol ar gyfer rheoli coedwigaeth a choetiroedd, a'r cyntaf o'r nodau allweddol sy'n sail i'r ddeddf yw gwella'r modd y caiff carbon ei reoli, a chreu economi carbon isel. Byddai ein targedau i ehangu'r tir sydd wedi'i orchuddio â choed (100,000 hectar ychwanegol erbyn 2030) a chreu ffynhonnell adnewyddadwy o goed i Gymru yn cael eu bygwth yn uniongyrchol gan yr effaith a gaiff niferoedd uwch o geirw.

### Rheoli fforestydd

Mae'r meini prawf ar gyfer rheoli fforestydd yn gynaliadwy sy'n berthnasol ar draws Ewrop, ac a gytunwyd yn y Drydedd Gynhadledd i Weinidogion ar gyfer Gwarchod Fforestydd Ewrop, a gynhaliwyd yn Lisbon ym mis Mehefin 1998, fel a ganlyn:

- Cynnal a gwella adnoddau fforestydd mewn modd priodol, a chynnal a gwella'r cyfraniad y maent yn ei wneud i gylchredau carbon byd-eang
- Cynnal iechyd a bywyd ecosystemau fforestydd
- Cynnal a hybu swyddogaethau cynhyrchiol fforestydd (coed a phethau heblaw coed)
- Cynnal, gwarchod a gwella amrywiaeth biolegol mewn modd priodol mewn ecosystemau fforestydd
- Cynnal a gwella swyddogaethau amddiffynnol mewn modd priodol wrth reoli fforestydd pridd a d r yn benodol)
- cynnal swyddogaethau ac amodau economaidd-gymdeithasol eraill



## 1.5.3 Polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r modd y caiff ceirw gwyllt eu rheoli yn effeithio ac yn dylanwadu ar ein prif bolisiau ynghylch yr amgylchedd naturiol, coedwigaeth, amaethyddiaeth a datblygu gwledig. Ar hyn o bryd, mae'r polisiau hyn yn cynnwys:

- Coetiroedd i Gymru, sy'n egluro ein strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed am yr hanner can mlynedd nesaf
- Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, sy'n sail i'n hymrwymiadau ar lefel y DU ac ar lefel rhyngwladol i wrthdroi achosion o golli bioamrywiaeth. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r canlynol
  - mynediad a hamdden
  - y newid yn yr hinsawdd
  - troseddau yn erbyn bywyd gwyllt
  - pobl a'r amgylchedd
  - Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru, sy'n egluro sut y bydd canlyniadau Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru o ran bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni, ac sy'n cynnwys lleihau effeithiau rhywogaethau estron

Mae polisiau perthnasol eraill yn cynnwys y polisiau ar reoli bywyd gwyllt, iechyd a lles anifeiliaid, addysg a hyfforddiant gwledig/ynghyng gwlad a safonau bwyd, yn ogystal â'r strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad a chynlluniau grant cysylltiedig, strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r strategaeth Bio-ynni. Yn y sector bwyd, mae ein polisiau'n cynnwys Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol 2009, y strategaeth Bwyd i Gymru, a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Diwydiant Cig Coch, 2009.





#### 1.5.4 Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed

Cyfeirir yn benodol at ein strategaeth *Coetiroedd i Gymru*, oherwydd y berthynas agos rhwng ceirw a chynefinoedd coetir. Er mwyn cyflwyno elfennau o'r strategaeth, yn enwedig mewn perthynas â chynyddu gorchudd coetir, mwy o rywogaethau coed brodorol, gwella cysylltedd, gwella amrywiaeth o ran rhywogaethau a symud tuag at leihau ein dibyniaeth ar gwympo coed trwy System Goedamaeth Fach ei Heffaith wrth reoli coedwigoedd a choetiroedd, bydd angen rheoli ceirw yn fwy gweithredol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Mae *Coetiroedd i Gymru* yn amlygu 20 o ganlyniadau allweddol o dan **bum thema'r** strategaeth:

##### Coetiroedd a choed Cymru

- Mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
- Ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn wydn
- Coetiroedd wedi'u haddasu'n well er mwyn cynnig ystod eang o fanteision
- Gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu
- Mwy o gysylltiad rhwng rheoli coetiroedd a choed a defnydd arall o dir
- Coetiroedd a choed trefol yn cynnig ystod eang o fanteision

##### Ymateb i newid yn yr hinsawdd

- Coetiroedd Cymru'n helpu i leihau ôl-troed carbon Cymru

##### Coetiroedd ar gyfer Pobl

- Mwy o gymunedau'n elwa o ganlyniad i goetiroedd a choed
- Mwy o bobl yn mwynhau'r manteision y gall coetiroedd a'u cynnyrch eu cynnig o safbwynt dysgu gydol oes
- Mwy o bobl yn byw bywydau iach o ganlyniad i'w defnydd a'u mwynhad o goetiroedd
- Mwy o bobl yn elwa o ganlyniad i fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd

##### Sector Coedwigaeth Gystadleuol ac Integredig

- Mwy o goed wedi'u tyfu yng Nghymru'n cael eu defnyddio yng Nghymru
- Y sector coedwigaeth wedi'i integreiddio'n well, yn fwy cystadleuol, ac yn cefnogi economi Cymru
- Mwy o ddefnydd o goed fel adnodd adnewyddadwy pwysig
- Gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigaeth

##### Ansawdd yr Amgylchedd

- Rheolaeth coetiroedd yn sicrhau stiwardiaeth amgylcheddol o safon uchel
- Coetiroedd a choed o werth cadwraethol arbennig yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol
- Bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a choetiroedd brodorol yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol
- Coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad arbennig tirwedd Cymru ac i safleoedd sy'n bwysig a ran treftadaeth a diwylliant
- Choed a choetiroedd newydd, a'r rhai sy'n bodoli'n barod, yn cyfrannu at reolaeth dŵr a phridd

Mae'n bwysig bod gwaith rheoli ceirw yn gysylltiedig â'r prif ganlyniadau hyn, yn ogystal ag â'r cyfrifoldebau ehangach sydd gennym am yr amgylchedd a'r gymdeithas.



#### 1.5.5 Crynodeb - yr angen i weithredu

Mae ceirw gwyllt yn cynnig llawer o fanteision, ond os na chânt eu rheoli'n briodol byddant yn cael effaith uniongyrchol ar y canlyniadau a nodir yn y strategaeth *Coetiroedd i Gymru*, ein hymrwymiaadau ym maes amaethyddiaeth a datblygu gwledig, ac ymrwymiaadau o ran bioamrywiaeth ar lefel ryngwladol ac ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Byddant hefyd yn fygythiad i'r modd y caiff coetiroedd eu creu ar gyfer dal a storio carbon a chynhyrchu biodanwydd, sy'n gysylltiedig â'n polisiau o ran newid yn yr hinsawdd. Bydd amaethyddiaeth, coedwigaeth a choetiroedd eraill yn dioddef effeithiau economaidd oherwydd ceirw. Os na chaiff niferoedd ceirw eu rheoli, bydd angen i ni ragweld cynnydd tebygol yn y gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau mewn ardaloedd gwledig a threfol, a phroblemau eraill a allai godi oherwydd y cynnydd yn nifer y ceirw mewn amgylcheddau trefol ac amdrefol.

Er mwyn adeiladu ar bartneriaethau ac ymdrechion sy'n bodoli eisoes, mae angen ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid, a chael cydgysylltu mwy effeithiol fel na chaiff amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd eu tanseilio.

## 2. Agenda ar gyfer gweithredu

Mae'r agenda hwn yn nodi'r wyth canlyniad allweddol rydym yn dymuno eu gweld mewn perthynas â cheirw yng Nghymru, a'r camau gweithredu ar gyfer eu cyflawni. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei orffen yn ystod 2011 a bydd yn nodi camau gweithredu tymor byr penodol ac yn amlygu'r sefydliadau arweiniol a'r graddfeydd amser cysylltiedig.

Mae'r camau gweithredu hyn yn adeiladu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yn hyn, yn enwedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yn y Bartneriaeth Menter Ceirw. Bydd angen cyfranogiad ystod eang o randdeiliaid i sicrhau llwyddiant llawer o'r camau gweithredu, a byddwn yn mynd ati i geisio hwyluso cyfleoedd i randdeiliaid ymwneud fwyfwy yn y modd y cânt eu rhoi ar waith. Ar yr un pryd, byddwn yn gweithio gyda'r partneriaethau sy'n bodoli eisoes ac yn adeiladu ar y partneriaethau hynny i:

- Sicrhau bod holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o werth ac effeithiau ceirw wrth lunio eu polisiau eu hunain
- Sicrhau bod holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n rhoi cyngor ynghylch rheoli ceirw yn gwneud hynny yn unol â'r strategaeth hon a'r ymchwil a'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael

### 2.1 Codi ymwybyddiaeth am geirw a'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y maent yn eu cael.

- 2.1.1 Trwy ddull partneriaeth, byddwn yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol ac yn eu cynorthwyo, ac yn gweithio trwy grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a grwpiau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i godi ymwybyddiaeth am effeithiau ceirw gwyllt, ac annog pobl i adrodd am achosion o weld ceirw gwyllt ac achosion o niwed gan geirw.
- 2.1.2 Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ceisio addysgu pobl ifanc am geirw a dulliau o'u rheoli, gan hyrwyddo cysylltiadau rhwng coetiroedd, ceirw a chig carw gwyllt trwy ddatblygu adnoddau addysgol i'w defnyddio ym Menter Addysg y Coed. Bydd Swyddogion Addysg y Coed yn ymchwilio i ddefnyddio ceirw a'r gwaith o'u rheoli fel astudiaethau achos i gyflawni amcanion y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- 2.1.3 Byddwn yn hybu gwell dealltwriaeth o geirw yng nghyswllt datblygu, rheoli a defnyddio amgylcheddau trefol ac amdrefol. Mae hynny'n cynnwys gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac adrannau cynllunio a chadwraeth awdurdodau lleol.
- 2.1.4 Gan weithio gydag eraill, byddwn yn cefnogi'r broses o hybu gwell dealltwriaeth o geirw a'r effaith y maent yn ei chael ymysg y cyhoedd yng Nghymru.



© Mark Malins



© Mark Malins

© Mark Malins

### 2.2 Rheoli effeithiau ceirw

- 2.2.1 Byddwn yn cefnogi casglu tystiolaeth yn rheolaidd ynghylch dosbarthiad ac effeithiau ceirw gwyllt yng Nghymru.
- 2.2.2 Byddwn yn hybu dulliau cydweithredol o reoli ceirw ar lefel leol ac ar lefel y dirwedd fel y bo'n briodol, gan gynnwys nodi ardaloedd daearyddol â blaenoriaeth lle mae effeithiau go iawn neu effeithiau posibl yn peri pryder penodol. Bydd hynny'n cynnwys cynorthwyo ffermwyr, rheolwyr coetiroedd a thirfeddianwyr i leihau'r effaith a gaiff ceirw ar amaethyddiaeth, cyflwr coetiroedd, ansawdd coed, bioamrywiaeth a'r dirwedd ehangach.
- 2.2.3 Trwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, byddwn yn cymeradwyo datblygu cyfleoedd rhwydweithio lleol ar gyfer rheoli ceirw mewn modd cynaliadwy, ac yn cynorthwyo â hynny lle bo'n briodol.
- 2.2.4 Byddwn yn ystyried effeithiau ceirw ar bolisiau rheoli tir, ac yn ystyried y polisiau hynny sy'n effeithio ar geirw, wrth iddynt gael eu hadolygu neu eu datblygu.
- 2.2.5 Trwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, byddwn yn monitro datblygiadau mewn dulliau rheoli amgen, gan gynnwys defnyddio dulliau imiwnolegol o atal cenhedlu, a byddwn yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r dulliau hynny yng Nghymru.

### 2.3 Lleihau effeithiau rhywogaethau ceirw estron lle bo hynny'n bosibl

- 2.3.1 Bydd y Gweithgor ar Rhywogaethau Estron Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (ac yn unol â'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol a Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain), yn datblygu cynlluniau gweithredu sy'n benodol i rywogaethau unigol i fynd i'r afael â'r rhywogaethau ceirw estron sydd eisoes i'w cael yng Nghymru (ceirw sica a cheirw mwntjac).
- 2.3.2 Byddwn yn gweithio gyda grwpiau rhywogaethau estron yng Nghymru a Phrydain i fonitro'r risgiau y gallai rhywogaethau ceirw estron eraill oresgyn cynefinoedd yng Nghymru (neu'r risgiau y gallent gael eu cyflwyno yng Nghymru), a byddwn yn ystyried mesurau i fynd i'r afael â'r risgiau hynny lle bo hynny'n briodol.
- 2.3.3 Byddwn yn hybu dulliau effeithiol o reoli rhywogaethau ceirw estron yng Nghymru (gan gynnwys dileu rhywogaethau ceirw estron os yw hynny'n briodol) wrth i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid weithredu'r cynlluniau gweithredu sy'n benodol i rywogaethau unigol a ddisgrifir uchod.





© Mark Malins

## 2.4 Sicrhau y caiff ceirw eu rheoli mewn modd cyfrifol, cymwys a moesegol

- 2.4.1 Rydym yn cymeradwyo'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac yn cydnabod y Dystysgrif Hela Ceirw fel y meincnod ar gyfer hyfforddiant hela ceirw.
- 2.4.2 Trwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, byddwn yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau y caiff ceirw ar dir cyhoeddus eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac yn unol â'r arfer gorau.
- 2.4.3 Trwy ein hasiantaethau byddwn yn cymeradwyo ac yn annog datblygu a defnyddio Canllawiau Arfer Gorau a lledaenu gwybodaeth am yr arfer gorau, er enghraifft trwy lythyrau newyddion, gwefannau a digwyddiadau.

## 2.5 Sicrhau bod cig carw o ganlyniad i reoli ceirw gwyllt ar gael yn fwy helaeth i farchnadoedd lleol

- 2.5.1 Byddwn yn cefnogi defnyddio Canllawiau Arfer Gorau i sicrhau safonau uchel o ran hylendid bwyd a'r gallu i olrhain bwyd wrth brosesu a gwerthu cig carw gwyllt (gweler 2.4.3 hefyd).
- 2.5.2 Trwy ein Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad, byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o gefnogi datblygu'r diwydiant cig carw gwyllt yng Nghymru yn unol â'r strategaeth Bwyd i Gymru, 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru'.

## 2.6 Lleihau nifer a difrifoldeb y gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau yng Nghymru

- 2.6.1 Trwy ein Hadran ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth byddwn yn cefnogi ac yn annog yr arfer o gofnodi, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth am wrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau sy'n cael eu hadrodd.
- 2.6.2 Trwy ein Hadran ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth, a gweithio gyda phartneriaid lle bo angen, byddwn yn gweithredu'r dulliau mwyaf cost effeithiol o weithredu mewn modd pwrpasol i leihau'r achosion o wrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau yng Nghymru.



© Mark Malins

## 2.7 Monitro iechyd anifeiliaid a materion ynghylch clefydau ceirw gwyllt, a mynd i'r afael â hwy lle bo'n briodol.

- 2.7.1 Trwy Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, byddwn yn parhau i gefnogi gwaith monitro ac ymchwil yng nghyswllt achosion o twberculosis gwartheg (TB gwartheg) ymysg ceirw, a allai gael effaith ar iechyd a lles anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
- 2.7.2 Gan fod ceirw hefyd yn gallu cael rhai o'r clefydau sy'n effeithio ar anifeiliaid fferm, megis clefyd y tafod glas a chlwy'r traed a'r genau, yn ogystal â TB gwartheg. Byddwn yn mynd ati, trwy waith ein hasiantaethau gyda phartneriaid, i annog helwyr ceirw, rheolwyr tir a thirfeddianwyr i wneud gwaith allweddol o ran cadw golwg ar y sefyllfa trwy adrodd ynghylch achosion posibl o glefydau yn unol â Chanllawiau Arfer Gorau, a thrwy gynorthwyo mewn arolygon ad-hoc.

## 2.8 Lleihau nifer y gweithgareddau anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â cheirw gwyllt yng Nghymru

- 2.8.1 Trwy ein cyrff amgylcheddol, byddwn yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi, tîrfeddianwyr a chymunedau lleol i annog pobl i adrodd ynghylch achosion o droseddau bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â cheirw, gan gynnwys potsio a rhyddhau ceirw yn anghyfreithlon, ac yn eu hannog i fynd i'r afael â'r achosion hyn.



## 3. Cyflwyno

Mae'r strategaeth hon wedi nodi'r canlyniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer rheoli ceirw gwyllt, er mwyn bod o fudd i'r economi, yr amgylchedd a phobl Cymru. Bydd cyflwyno'r uchelgais hon, yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu'r defnydd o dir a rheoli tir, yn gofyn am ymdrech gyson, ddwys a chydweithredol gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Er mwyn datblygu gweithrediad y strategaeth hon, rydym wedi amlygu ar gyfer pob un o'n canlyniadau yr hyn rydym eisiau ei weld yn digwydd a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni. Y gweithgareddau allweddol hyn fydd sylfaen y Cynllun Gweithredu y byddwn yn ei ddatblygu, a bydd yn darparu ffocws tymor byr er mwyn gwneud cynnydd tuag at ein huchelgeisiau tymor hir. Nod y Cynllun Gweithredu fydd cadw'r holl weithgareddau sy'n ofynnol i weithredu'r strategaeth hon, nid y rheiny i'w cyflawni gennym ni yn unig. Mae'n rhaid iddo fod yn gyfan gwbl gynhwysol ac yn deg ar draws pob sector o gymdeithas, ac rydym yn cydnabod y bydd angen nifer o bartneriaid cyflwyno arnom i fod yn llwyddiannus.

## 4. Monitro

Bydd rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn cynnwys monitro ei gyflwyniad yn flynyddol er mwyn sicrhau cynnydd tuag at y canlyniadau sy'n ofynnol yn ôl y strategaeth hon. Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu pob pum mlynedd er mwyn asesu ei heffeithiolrwydd o ran rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru.



### Atodiad 1: Ceirw gwyllt yng Nghymru

Mae'r papur materion 'Rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru' <http://fcnotes/website/forestry.nsf/byunique/INFD-8CZED6> yn disgrifio statws ceirw gwyllt yng Nghymru ac yn rhoi disgrifiad manylach o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y maent yn eu cael. Yma, rydym yn rhoi cyflwyniad byr i'r ceirw sy'n byw yn y gwyllt yng Nghymru, a'r prif broblemau sy'n gysylltiedig â rheoli pob rhywogaeth.

O'r pum rhywogaeth sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'r carw coch a'r iwrch yn rhywogaethau brodorol. Mae'r carw sica a'r carw mwntjac yn rhywogaethau estron a gyflwynwyd ddiwedd y 19eg ganrif. Erbyn hyn, caiff danasod eu hystyried yn geirw 'brodoredig'.

#### Mapiau dosbarthiad ceirw

Cynhyrchwyd y mapiau sy'n dangos dosbarthiad ceirw yng Nghymru gan ddefnyddio data a gasglwyd gan Gymdeithas Ceirw Prydain fel rhan o'i Harolwg o Geirw ym Mhrydain Fawr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diolch i'r Gymdeithas am gael caniatâd i atgynhyrchu ei data, ac yn diolch i Alastair Ward yn yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd am greu'r mapiau ar gyfer y ddogfen hon.


Mae dosbarthiad ceirw yn 2007 yn seiliedig ar yr achosion lle'r oedd aelodau Cymdeithas Ceirw Prydain wedi gweld o leiaf un carw mewn grid 10 cilometr sgwâr, a darparwyd deunydd ychwanegol i'r arolwg gan gofnodion difa'r Comisiwn Coedwigaeth, Prosiect Gwrthdrawiadau rhwng Ceirw a Cherbydau a Menter Ceirw Cymru.

Mae'r mapiau'n dangos dosbarthiad ceirw yng Nghymru fel yr adroddwyd yn ei gylch mewn arolygon yn 1972 a 2002, yn ogystal ag arolwg 2007. Wrth ddehongli'r data ynghylch dosbarthiad dylid cymryd bod ceirw yn dal yn bresennol yn yr ardaloedd y tynnir sylw atynt yn yr arolygon cynharaf.

#### Ceirw coch (*Cervus elaphus*)

Y carw coch yw'r mamal tir brodorol mwyaf yng Nghymru. Gall rhai gwryw yn eu llawn dwf bwysu hyd at 200 cilogram. Er y cânt eu hystyried yn gynhenid i Gymru, mae eu dosbarthiad yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Daeth y boblogaeth o geirw coch sy'n byw'n wyllt ym Mannau Brycheiniog ar hyn o bryd o fferm geirw yn yr 1980au. Mae rhai ceirw wedi dianc o Barc Margam hefyd, ac maent i'w gweld yn yr ardal gyfagos. Mae pobl wedi gweld ceirw coch yn ardaloedd Penrhyn Llŷn a'r Trallwng.


Gall ceirw coch gael effaith sylweddol ar gnydau amaethyddol, yn bennaf trwy bori a sathru. Gallant wneud difrod sylweddol i goetioreded hefyd trwy bori ar goed ifanc sy'n atgynhyrchu'n naturiol neu goed a gaiff eu plannu, stripio rhisgl coed a'u rhwbio.



### Iwrch (*Capreolus capreolus*)

Mae'r iwrch yn garw eithaf bach, sy'n pwysu oddeutu 10-25 cilogram fel rheol, yn dibynnu ar ei ryw a'i oedran. Maent yn greaduriaid sy'n gynhenid i Ynysoedd Prydain, ac erbyn hyn fe'u gwelir mewn rhannau o Gymru, diolch i'r ffaith bod cynefinoedd coetir addas yn cael eu hehangu. Yn wreiddiol, daethant i Gymru ddechrau'r 1970au o siroedd dros y ffin yn Lloegr. Credir hefyd eu bod wedi'u rhyddhau yn ystod diwedd yr 20fed ganrif, ym Mhowys ac ardaloedd eraill yng ngogledd a de Cymru.


Mae iyrchod yn dda am gyntrefu coetiroedd nad oes ceirw yn byw ynddynt yn barod, fel y ceirw yn y rhan fwyaf o Gymru. Y flaenoriaeth yw cyfyngu ar eu heffaith ar adfywio mewn coetiroedd a reolir dan y System Goedamaeth Fach ei Heffaith a chadw poblogaethau ar lefelau cynaliadwy. Bydd iyrchod hefyd yn symud i ardaloedd trefol lle ceir cynefinoedd addas, gan effeithio ar fannau gwyrdd a dioddef damweiniau ar y ffyrdd.



### Danas (*Dama dama*)

Ailgyflwynwyd danasod i Brydain yn ystod yr 11eg neu'r 12fed ganrif (ac mor gynnar â chyfnod y Rhufeiniaid o bosibl). Mae danasod yn geirw canolig eu maint ac mae'r bychod (y ceirw gwryw) yn pwysu hyd at 95 cilogram. Mae danasod yn rhywogaeth brydferth, a daeth yn boblogaidd i'w chynnwys mewn parciau ceirw. Wedi hynny, ymsefydlodd y ceirw a ddihangodd o'r parciau hyn yn y gwyllt. Erbyn hyn, maent ymysg y rhywogaethau ceirw gwyllt mwyaf cyffredin yng Nghymru. Gellir dod o hyd i boblogaethau mawr o ddanasod yn yr ardaloedd ger Abergele, Dolgellau, Y Trallwng, Llandeilo, Castell-nedd Port Talbot a Chas-gwent, yn ogystal ag yng Ngwaelod Dyffryn Gwy.

Fel rhywogaeth heidiol, mae danasod yn cyflwyno sawl her. Dyma'r rhywogaeth a gysylltir yn bennaf â gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau yng Nghymru, ac maent yn pori llawer ar gnydau amaethyddol. Mae gan boblogaethau lleol dwys iawn o ddanasod (a cheirw coch) y potensial i weithredu fel 'gorlifiaid lletyol' ar gyfer TB gwartheg. Er ei bod yn annhebygol eu bod yn chwarae rôl sylweddol yn y modd y caiff y clefyd ei drosglwyddo i dda byw domestig, byddai'r ffaith bod TB gwartheg yn bresennol mewn ceirw yn dangos bod problem yn lleol, ac o bosibl byddai angen cymryd camau gweithredu i reoli'r sefyllfa.



### Ceirw sica (*Cervus nippon*)

Cafodd y carw sica, sy'n dod o Asia yn wreiddiol, ei gyflwyno fel rhywogaeth addurnol mewn parciau ceirw, ac mae'r ceirw sydd wedi dianc o'r parciau hynny wedi ymsefydlu fel poblogaethau gwyllt. Maent o faint canolig, ac mae'r ceirw gwryw yn y DU yn pwysu hyd at 70 cilogram. O ran geneteg, maent yn perthyn yn agos i geirw coch, a cheir croesiadau rhyngddynt. Yng Nghymru, ceir poblogaeth fach o geirw sy'n groesiadau o'r carw coch a'r carw sica yn Aberteifi ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn dod o barc ceirw yn wreiddiol ond maent yn byw yn y gwyllt erbyn hyn. Yn ogystal, cafwyd hanesion bod ceirw sica unigol i'w cael yn Nyffryn Gwy a Phowys.


Fel rhywogaeth estron, y brif her o ran ei rheoli yng Nghymru yw rheoli niferoedd y rhywogaeth, neu ei dileu. Gall bygythiadau i goetiroedd oherwydd nifer fawr o geirw sica fod yn ddifrifol, gan effeithio ar ba mor gystadleuol yw'r sector coetiroedd a gwerth cynefinoedd coetir o ran bioamrywiaeth.



### Ceirw mwntjac (*Muntiacus reevesi*)

Cyflwynwyd y carw mwntjac i barciau ceirw ym Mhrydain o Asia ar ddiwedd y 19eg ganrif, a bu iddynt ddechrau sefydlu yn y gwyllt wedi i rai ceirw ddianc a chael eu rhyddhau. Carw bach ydyw (sy'n pwysu oddeutu 10-20 cilogram). Mae ceirw mwntjac wedi'u gweld ar hyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac ar hyd coridorau'r A55 a'r M4 yng ngogledd a de Cymru; credir mai ceirw sydd wedi'u rhyddhau'n anghyfreithlon yn lleol yw'r rhain.

Mae ceirw mwntjac yn cyflwyno heriau penodol o ran eu rheoli oherwydd eu gallu i fridio trwy gydol y flwyddyn. Maent yn gallu addasu'n hawdd iawn, maent yn gallu goddef pobl ac maent yn defnyddio amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys gerddi maestrefol. Gallai ceirw mwntjac danseilio ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni targedau bioamrywiaeth, oherwydd yn ogystal â bod yn rhywogaeth estron, gall y ceirw hyn gael effeithiau negyddol sylweddol ar fflora ar y ddaear mewn coetiroedd hynafol a lled-naturiol.



### Ceirw dŵr Tsieina (*Hydropotes inermis*) a rhywogaethau estron eraill nad ydynt wedi sefydlu eto yng Nghymru

Credir bod yr ymdrechion i gyflwyno Ceirw dŵr Tsieina i Gymru yn yr 1950au wedi methu. Fodd bynnag, ceir posibilrwydd y gallai ceirw dŵr Tsieina (a rhywogaethau estron eraill) nad ydynt wedi sefydlu yn y gwyllt eto gael eu cyflwyno'n anghyfreithlon, ac mae'n bwysig annog gwaith monitro ac adrodd ynghylch y ceirw hyn er mwyn gallu ymateb yn amserol iddynt.



## Atodiad 2: Heriau allweddol wrth reoli ceirw a nodwyd yn y papur materion, Rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru, mis Ebrill 2010.

Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ei phartneriaid a rhanddeiliaid eraill sydd wedi tynnu sylw at y prif ffactorau perthnasol. Mae angen rhoi sylw arbennig i'r prif ffactorau canlynol, ac mae'r papur materion Rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru [mis Ebrill 2010; mae angen nodi cyfeiriad y wefan - i'w gadarnhau] yn eu disgrifio'n fanwl:

- Tueddiadau o ran poblogaethau ceirw, a'u dosbarthiad
- Cyflwyno rhywogaethau estron
- Tueddiadau o ran tîrfeddiannaeth a gwaith rheoli tir
- Tueddiadau o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Effeithiau ar fioamrywiaeth
- Effeithiau ar goedwigaeth
- Effeithiau ar amaethyddiaeth
- Gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau
- Y newid yn yr hinsawdd
- Cysylltedd o ran cynefinoedd
- Clefydau
- Cig carw
- Potsio

## Atodiad 3: Partneriaeth Menter Ceirw Cymru

Mae'r Fenter Ceirw yn bartneriaeth eang o sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n ymroi i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn cadw poblogaeth gynaliadwy ac iach o geirw gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Caiff y Bartneriaeth Menter Ceirw ei chefnogi gan ei changen weithredol, Deer Initiative Ltd. Dyma restr o'r partneriaid sy'n rhan o Fenter Ceirw Cymru:

Clwb St Hubert Prydain Fawr  
Coed Cadw  
Comisiwn Coedwigaeth Cymru  
Cydffederasiwn y Diwydiannau Coedwig  
Cyngor Cefn Gwlad Cymru  
Cymdeithas Ceirw Prydain  
Cymdeithas Ceirw y Milfeddygon  
Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt  
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu  
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain  
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad  
Forest Research  
NFU Cymru  
Sefydliad Cenedlaethol y Ciperiaid  
Undeb y Gweithwyr Cefn Gwlad  
Y Gynghair Cefn Gwlad  
Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid  
Y Weinyddiaeth Amddiffyn  
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

## Geirfa

|  |  |
|--|--|
| <b>Bioamrywiaeth</b>                       | Amrywiaeth yr ecosystemau ac organebau byw (rhywogaethau), gan gynnwys amrywiadau genetig rhwng rhywogaethau   |
| <b>Ôl-troed carbon</b>                     | Cynrychiolaeth o'r effaith y mae gweithgareddau dynol yn ei chael ar yr hinsawdd o ran y swm net o nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, fel arfer yn cael ei fesur fel tunnell o garbon ar ffurf carbon deuocsid   |
| <b>Grŵp Rheoli Ceirw</b>                   | Grŵp o bobl wedi'i ffurfioli i reoli ceirw ar lefel y dirwedd  |
| <b>Parc Ceirw</b>                          | Ardal o dir caeëdig sy'n dal ceirw dof   |
| <b>Tystysgrif Hela Ceirw</b>               | Safon y diwydiant ar gyfer hyfforddi ac asesu cymhwysedd helwyr ceirw. Mae lefel 1 yn cynnwys adnabyddiaeth, arholiad ysgrifenedig a phrawf saethu; mae lefel 2 yn cynnwys saethu tri charw a'u paratoi ar gyfer y gadwyn fwyd ym mhresenoldeb aseswr (Mae mwy o wybodaeth ar gael ar: <a href="http://www.dmq.org.uk">http://www.dmq.org.uk</a> ) |
| <b>Cysylltedd o ran cynefinoedd</b>        | Cysylltu cynefinoedd canfyddedig mewn coetiroedd, yn aml yn cael eu cyflawni trwy blannu coridor i fywyd gwyllt o goed a llwyni  |
| <b>Dulliau imiwnolegol o atal cenhedlu</b> | Defnyddio brechiadau i atal beichiogrwydd  |
| <b>Yr Amgylchedd a Reolir</b>              | Tir sy'n cael ei reoli'n weithredol ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth neu ddiben arall  |
| <b>Rhanddeiliaid</b>                       | Mewn perthynas â cheirw, unigolion neu sefydliadau sydd â diddordeb mewn ceirw a rheoli ceirw neu dir lle mae ceirw yn bresennol   |
| <b>Hela</b>                                | Y broses o ddethol a difa ceirw gwyllt   |
| <b>Rheoli Ceirw yn Gynaliadwy</b>          | Sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau o boblogaethau ceirw gwyllt yn cael eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol   |
| <b>Cig carw</b>                            | Cig sy'n cael ei baratoi o ysgerbwdd carw  |

## Rhagor o wybodaeth

Mae hwn yn un ymhlith cyfres o Safbwyntiau Polisi sy'n darparu manylder a chefnidir ychwanegol i brif themâu strategaeth Coetiroedd i Gymru. Mae pob un yn cynnwys agenda gweithredu sy'n amlinellu ffyrdd o ddarparu nodau ac amcanion strategol.

Gallwch gael y cyhoeddiad hwn mewn print mawr ac mewn ffurfiau eraill (e.e. Braille, tâp sain) drwy gysylltu â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru gan ddefnyddio'r rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost isod:

**Ffôn: 03000 680300 Ffacs: 03000 680301**

**E-bost: [fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk](mailto:fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk)**

(Codir tâl ar gyfradd 'Lo-call' ar gyfer galwadau i rifau 0300, bydd hyn yr un peth o ble bynnag rydych yn ffonio).

Gallwch gysylltu â ni hefyd i gael gwybodaeth am gyfieithiadau neu i drefnu i swyddog eich ffonio i esbonio unrhyw rannau o'r cyhoeddiad hwn ymhellach.

Lluniau: Mae'r holl ddelweddau â hawlfraint yn unol â phriodoledd. Lle na cheir unrhyw briodoliad maent yn Hawlfraint y Goron o Lyfrgell Lluniau'r Comisiwn Coedwigaeth.

Dyddiad cyhoeddi 2011



Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff adferedig a 50% ffibr pren gwryf. FSC SGS-COC-0912



Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd SGS-FM/COC-000358 © 1996 Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd AC